



Lower Carbon



Minimal Waste



Biodiverse
Campuses

Miltroediaid Rhesog ar Gampws y Bae

Yr hyn y mae angen i chi ei wybod



Beth yw Miltroediaid Rhesog?

Gyda'i hyd enfawr o 3cm, y miltroed resog, sef *Ommatoiulus Sabulosus*, yw miltroed fwyaf Prydain. Mae ganddi ddwy res liw efydd ar hyd ei chefn felly mae'n hawdd i'w hadnabod.

Ble mae'n byw?

Gellir dod o hyd iddi mewn niferoedd mawr yn Nhwyni Crymlyn a phob mis Mai, mae'n gwasgaru hwnt ac yma i chwilio am fannau i fridio. Dyma'r unig filtroed sy'n weithgar gyda'r dydd, ond mewn tywydd braf, mae dadhydradu'n beryg iddi felly mae'n rhaid dod o hyd i gysgod. Ar y traeth, gellir dod o hyd i filoedd ohonynt yn cysgodi dan frôc môr, ond ar y campws, mae hyn yn aml yn golygu y byddant yn dod i mewn i adeiladau, ac felly, yn dod i gysylltiad â phobl.

Pam maent dan do?

Gall y filtroed hon ddringo'n dda ac mae'n gallu dod mewn i adeiladau drwy fylchau bychain iawn. Yr adeiladau sydd agosaf at y twyni yw'r rhai y mae'r miltroediaid fwyaf tebygol o fynd i mewn iddynt, yn enwedig Adeilad Dwyreiniol Peirianeg a'r Llyfrgell. Mae bron yn amhosib i'w hatal rhag dod i mewn, gan y byddant yn dod drwy fylchau awyru, dan ddrysau a thrwy ffenestri. Er eu bod yn ddiniwed, maent yn gallu bod yn destun pryder i bobl, yn enwedig pan fyddant yn ymddangos mewn niferoedd mawr, pan fydd tywydd poeth a heulog yn dilyn cyfnod oer a gwlyb, er enghraifft.

Peidiwch â phoeni, mae'n greadur diniwed!

Fel y rhan fwyaf o fildroediaid, gall *O.sabulosus* secretu hylif sy'n blasu'n wael pan fydd rhywbeth yn tarfu arnynt, ond mae'n ddiniwed fel arall. Nid yw'n gallu cnoi na phigo ac mae'n falurysor addfwyn, sy'n byw ar bren sy'n pydru ac olion eraill planhigion.

Beth dylech ei wneud?

Y peth gorau i'w wneud yw defnyddio rhaw lwch a brws i'w casglu'n ofalus a'u rhyddhau y tu allan i ffwrdd o'r adeilad mewn ardal lle mae llystyfiant cysgodol. Bydd mwy yn dychwelyd, mwy na thebyg, ond gellir ailadrodd y broses. Erbyn mis Mehefin, bydd rhan fwyaf o'r symud wedi dod i ben ac ni welir llawer o'r creaduriaid bach hyn tan y gwanwyn canlynol. Yn y cyfamser, mwynhewch ryfeddod y bywyd amrywiol sydd gennym ar y campws!

Swyddog Bioamrywiaeth, e-bostiwrch: bywydgyyllt@abertawe.ac.uk



Sustainable
Travel



Positive
Procurement



Wellbeing
and Health



Culture and
Community



Knowledge
and Skills